# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Porthmadog, ar 20 Ionawr 2016 o 9.30 a.m. hyd 10.40 a.m.**

**Yn Bresennol:**

**Mr. Godfrey Northam – Cadeirydd**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Pennaeth Cyllid:** Dafydd L. Edwards

**Penaethiaid Ysgolion :** Eifion Jones (Ysgol Brynrefail), Alun Llwyd (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog), Iona Wyn Jones (Ysgol Bro Cynfal/Ysgol Edmwnd Prys), Rhys Williams (Ysgol Cymerau), Esme Spencer (Ysgol Baladeulyn), Geraint Evans (Ysgol Edern)

**Undebau Athrawon:** Neil Foden (Ysgol Friars)

**Llywodraethwyr:** Llinos Lloyd (Corff Cysgodol Dalgylch y Gader)
Gwynne Pierce (Ysgol Llanbedr)
Gwilym Jones (Ysgol Borth-y-gest)
Dafydd Meirion Roberts (Ysgol Brynrefail)
Michael Sol Owen (Ysgol Glan y Môr)

**Swyddogion:** Arwyn Thomas (Pennaeth Addysg)
Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg)
Hefin Owen (Rheolwr Cyllid)
Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn), Gwyn Howells (Ysgol y Gelli).

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol i'w cyfarfod cyntaf o'r Fforwm:

Mrs Llinos Lloyd, Cynrychiolydd Llywodraethwyr Uwchradd ardal Meirionnydd
Y Cyng. Michael Sol Owen, Cynrychiolydd Llywodraethwyr Uwchradd ardal Dwyfor

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2015 fel rhai cywir.

## 3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

**Eitem 5 (iii) – Gweithgor Cyllid Addysg – Nifer o swyddi a gollwyd yn sgil effaith toriadau**

(a) Mewn ymateb i gais o gyfarfod diwethaf y Fforwm i gyflwyno ffigyrau manylach o'r nifer swyddi a gollwyd fel rhan o'r broses toriadau, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg bod 25.4 (fte) o swyddi athrawon llawn amser wedi eu colli, 8.04 (fte) cymhorthyddion a 2.16 (fte) staff ategol. Amlinellodd y nifer o unigolion a effeithiwyd fel a ganlyn:

**Athrawon:**

| Gorfodol (heb bensiwn) | Oriau wedi eu cwtogi | Gwirfoddol (Colli oriau yn gyfan gwbl) | Gwirfoddol (Cwtogi oriau) | Gwirfoddol (Yn derbyn pensiwn) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 5 | 3 | 7 | 23 | 42 |

**Cymhorthyddion, staff ategol, a.y.b.:**

| Gorfodol (heb bensiwn) | Oriau wedi eu cwtogi | Gwirfoddol (Colli oriau yn gyfan gwbl) | Gwirfoddol (Cwtogi oriau) | Gwirfoddol (Yn derbyn pensiwn) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 21 | 11 | 5 | 11 | 3 | 51 |

(b) Mewn ymateb i'r wybodaeth a gyflwynwyd uchod, cwestiynwyd a oedd y ffigyrau yn gywir oherwydd ymddengys bod yr effaith yn llawer iawn mwy i rai ysgolion uwchradd gydag esiampl o un ysgol yn colli 7 unigolyn.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r wybodaeth a gofyn i'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg gyflwyno ffigyrau yn flynyddol i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion.**

## 4. DIWEDDARIAD ADOLYGIAD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD

Ymddiheurwyd nad oedd yr Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn gallu bod yn bresennol ond fe adroddwyd ar ei ran gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg fel a ganlyn:

- Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2016 er cymeradwyaeth i Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Yn deillio o'r cyfarfod cytunwyd i:

- Barhau i gynnal trafodaethau gyda Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn ymchwilio'r cyfle i lunio strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Gyffredin a

fydd yn cyfarch anghenion y disgyblion a'r bobl ifanc mewn modd effeithiol ac effeithlon

- Roddi cymeradwyaeth i'r strategaeth gan gymryd sylw o'r uchod
- Roddi cymeradwyaeth i'r Achos Busnes – sef buddsoddiad unwaith ac am byth o hyd at £1,380,131 er mwyn dangos arbediad blynyddol parhaol o leiaf £808,461

Nodwyd y byddir yn llunio'r gwasanaeth integredig anghenion dysgu ychwanegol mewn dau brif gam:

(1) Ail-strwythuro a sefydlu'r Tîm Integredig i gynnwys Seicolegwyr Addysg ac Athrawon Arbenigol erbyn Medi 2016
(2) Erbyn Medi 2017 cynnwys y cymhorthyddion, cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol fel rhan o'r gweithlu canolog

Pwysleisiwyd y byddir yn parhau i ymgynghori ar y modelau gwahanol.

(b) Mewn ymateb i'r uchod, datganodd sawl Pennaeth bryder fel a ganlyn:

- Tra'n croesawu'r adolygiad, bod angen ystyried y sefyllfa gyllidol yn drwyadl a bod angen eglurder ynglŷn á'r lleihad yng nghyllideb datganiad 3* i'r 81 ysgol sydd heb ddatganoli cyllid.
- Bod y toriad yn un sylweddol a all gael effaith aruthrol ar ysgolion yn enwedig y sector uwchradd
- Bod llawer iawn llai o anfodlonrwydd ymysg rhieni pan fo'r arian wedi ei ddatganoli i ysgolion
- Beth fydd yn digwydd i'r cymhorthyddion os yw'r arian yn cael ei drosglwyddo a'i ddefnyddio yn hyblyg
- O ba ffynhonnell y daw arian ar gyfer diswyddo
- Tra'n derbyn y byddai creu gweithlu o bwll canolog yn arwain at leihau elfen o fiwrocratiaeth i ariannu sustem ond pryderwyd a fydd y ddarpariaeth cystal â'r hyn sydd eisoes yn yr ysgolion
- Y dylid cyfaddawdu ond heb dynnu arian o gyllidebau ysgolion

(c) Ymatebodd y Pennaeth Addysg i'r pryderon uchod gan nodi:

- y byddai trafodaethau yn digwydd ynglŷn a'r gyllideb a'r bwriad ydoedd i ysgolion fod yn hunan gynhaliol
- atgoffwyd y Fforwm bod y gyllideb dan sylw yn un sydd wedi bod yn gorwario yn y gorffennol
- tra'n cytuno bod gan ysgolion fwy o hyblygrwydd ac y byddir yn lleihau elfen o fiwrocratiaeth, pwysleisiwyd y byddai'r Tîm canolog yn darparu a chefnogi arbenigedd i bwrpas
- y byddir yn croesawu trafodaeth bellach yn y Fforwm hwn i wyntyllu goblygiadau ariannol yn dilyn ymgynghoriad a thrafodaeth agored gyda'r budd-ddeiliaid

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 5. YMESTYN CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH – CYNNAL A CHADW ADEILADAU

Gwnaed cais gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg i ymestyn Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladu am flwyddyn o dan

amodau'r cytundeb bresennol er mwyn gallu cyflwyno ystod o gytundebau o'r newydd y flwyddyn nesaf.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo'r cais uchod.**

## 6. DIWEDDARIAD AM GYLLIDEB 2016/17

(a) Cyflwynwyd diweddariad llafar gan y Pennaeth Cyllid ynglyn a chyllideb 2016/17 gan nodi dros y cyfnod pedair blynedd o Ebrill 2014 i Fawrth 2018, cynlluniwyd ar y sail:

- Byddai **grant** gan Lywodraeth Cymru i'r Cyngor **yn gostwng £21m**, a
- Byddai **chwyddiant** a chynnydd mewn **galw** am wasanaethau yn **ychwanegu £29m at gostau**, gan greu
- **Bwlch ariannol o £50m** sydd raid ei ddarganfod.

Dros yr un cyfnod pedair blynedd (2014 - 2018), cynlluniwyd **cynnydd Treth Cyngor o 3.5%** y flwyddyn ('ychydig uwch yn 2015/16) sy'n golygu lleihad **£9m** ar y bwlch, gan adael **£41m i'w ddarganfod**.

Adnabuwyd **gwerth £26m o arbedion effeithlonrwydd** sy'n cael ei gweithredu, gyda rhai adrannau canolog y Cyngor yn wynebu cwtogiad 30%.

**Yn rhan o'r "arbedion effeithlonrwydd" £26m, mae'r £4.3m ysgolion.**

Wrth gwrs, gellid dadlau'r **ffin lwyd rhwng "arbedion effeithlonrwydd" a "toriadau",** ond yn y strategaeth mae'r £4.3m ysgolion yn "arbedion effeithlonrwydd".

Yn ogystal â'r "arbedion effeithlonrwydd" o £26m, cynllunnir i gyflawni £8m pellach o arbedion effeithlonrwydd, heb ofyn am fwy gan ysgolion yn y cyfnod pedair blynedd hyd at 2018.

Yn anffodus, ni fydd hyn yn ddigon i gyfarch y bwlch o £41m.

Gyda'r bwlch sydd ar ôl, adnabuwyd byddai angen i'r Cyngor wireddu £7m o doriadau, sef testun ymgynghoriad Her Gwynedd.

Yn dilyn setliad grant amodol i lywodraeth leol, a gwaith pellach ar anghenion gwario 2016/17, edrychir am doriadau o tua £5m dros y ddwy flynedd nesaf, yn hytrach na'r £7m y cynlluniwyd ar ei gyfer.

Bydd hyn ddim yn golygu osgoi unrhyw ran o'r £34m o "arbedion effeithlonrwydd". Felly, bydd dim newid i'r cyfraniad £4.3m gan yr ysgolion.

Esboniwyd bod setliad amodol 2016/17 llywodraeth leol yn dangos lleihad o 1.4% ar gyfartaledd i awdurdodau Cymru, gyda lleihad 1.7% i Wynedd, sydd yn agos at be roedd Gwynedd wedi darogan, sef lleihad o 2%.

Ynglŷn â diogelu rhywfaint ar gyllidebau ysgolion, nodwyd bod amodau ynghlwm i'r ymarfer cyfrifo, sy'n cynnwys -

- effaith ariannol unrhyw gynnydd neu leihad yn y nifer disgyblion,
- cynnydd neu leihad yn y datganoli,
- cyfraniad £2m yn 2016/17 o'r £4.3m o arbedion effeithlonrwydd,
- trosglwyddiadau grant penodol i'r setliad, a

- cost benthyg ar gyfer buddsoddi mewn eiddo ysgolion (yn gysylltiedig â'r rhaglen ysgolion unfed ganrif ar hugain, a threfniadaeth ysgolion).

Wrth gwrs, bydd y Cyngor hefyd, fel arfer, yn darparu cyllideb ychwanegol ar gyfer –

- cytundebau tâl,
- isafswm cyflog byw,
- y cynnydd yng nghost cyfraniadau pensiwn athrawon,
- y cynnydd sylweddol yng nghost yswiriant gwladol, ayb.

(b) Mewn ymateb i sylwadau wnaed, nododd y Pennaeth Addysg y pwyntiau canlynol:

- ni fyddai'n ofynnol i ysgolion gyfrannu tuag at y toriadau o £5m rhwng rŵan a 2018 ac mai £4.3m fyddai cyfraniad gan yr ysgolion
- y byddai angen ffocws ar y cyd-drefniadaeth ar ôl 2018 a bod rhagolygon ar ôl hynny yn edrych yn drychinebus

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**7. GRANT GWELLA ADDYSG 2016/17**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid yn anffodus ni dderbyniwyd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru hyd yma.

Mynegodd y Pennaeth Addysg bod anghyfartaledd o safbwynt cyllid yn enwedig i'r awdurdodau gwledig sydd yn colli arian ar y dyraniadau grantiau o'i gymharu ag awdurdodau trefol ac yn arbennig gan bod tri chwarter yr ysgolion yn rhan o brosiect Her Cymru.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**8. GRANT 6ed 2016/17**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid, ni dderbyniwyd gwybodaeth pellach gan Llywodraeth Cymru ers cyfarfod a gafwyd gyda swyddogion Ll.C. a rhai Penaethiaid 6ed nol yn Nhachwedd 2015. Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd yn y cyfarfod bwriedir rhyddhau rhagolygon 2016/17 i 2018/19 yn fuan.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

<u>**CADEIRYDD**</u>